OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 1448 (Cy.148)

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU
PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli a Gweithdrefn Sylwadau (Plant) (Cymru) 2004

Wedi'u gwneud - -	*26 Mai 2004*
Yn dod i rym - -	*1 Mehefin 2004*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 24D(2), 26(5) a (6), 26A(3) a (4) a 104(1) a (4) o Ddeddf Plant 1989(**1**) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:—

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli a Gweithdrefn Sylwadau (Plant) (Cymru) 2004 ac yn dod i rym ar 1 Mehefin 2004.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn —

ystyr "achwynydd" ("*complainant*") yw person sy'n gwneud sylwadau o dan adran 24D o'r Ddeddf neu blentyn sy'n gwneud sylwadau o dan adran 26 o'r Ddeddf;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Plant 1989;

ystyr "eiriolwr" ("*advocate*") yw person sy'n rhoi cymorth o dan drefniadau a wnaed gan awdurdod lleol o dan adran 26A(1) o'r Ddeddf;

ystyr "gwasanaethau eirioli" ("*advocacy services*") yw'r cymorth a ddarperir o dan drefniadau a wnaed gan awdurdod lleol o dan adran 26A(1) o'r Ddeddf;

(**1**) 1989 p.41. Mae'r pwerau hyn yn arferadwy gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Lloegr. Trosglwyddwyd y gwaith o arfer y pwerau mewn perthynas â Chymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) a'r cyfeiriad at Ddeddf Plant 1989 yn Atodlen 1 iddo. Mewnosodwyd adran 24D gan adran 5 o Ddeddf Plant (Gadael Gofal) 2000 (p.35), a mewnosodwyd adran 26A gan adran 119 o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (p.38). Yn rhinwedd adran 8(7) o Ddeddf Plant (Gadael Gofal) 2000 ac adran 145(1) o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002, mae'r cyfeiriad at y Ddeddf yn Atodlen 1 i O.S. 1999/672 i'w drin fel cyfeiriad at y Ddeddf fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddfau hynny.

ystyr "y Rheoliadau Sylwadau" ("*the Representations Regulations*") yw Rheoliadau Gweithdrefn Sylwadau (Plant) 1991(**2**).

Personau na chânt roi cymorth

3. Ni chaiff person roi cymorth o dan adran 26A(1) o'r Ddeddf i bersonau sy'n gwneud sylwadau o dan adran 24D o'r Ddeddf neu sy'n bwriadu eu gwneud neu i blentyn sy'n gwneud sylwadau o dan adran 26 o'r os yw'r person hwnnw—

(a) yn destun y sylwadau neu os gall fod yn destun y sylwadau;

(b) yn gyfrifol am reoli person sy'n destun y sylwadau neu os gall fod yn destun y sylwadau;

(c) yn rheoli gwasanaeth sy'n destun y sylwadau neu os gall fod mai'r gwasanaeth hwnnw yw testun y sylwadau;

(ch) yn berson a chanddo reolaeth dros yr adnoddau a ddyrennir i wasanaeth sy'n destun y sylwadau neu os gall fod mai'r gwasanaeth hwnnw yw testun y sylwadau;

(d) yn gysylltiedig ag ystyried y sylwadau ar ran yr awdurdod lleol neu os bydd o bosibl yn gysylltiedig â hynny.

Gwybodaeth i'w rhoi i achwynydd etc.

4.—(1) Pan ddaw awdurdod lleol i wybod bod person neu blentyn yn bwriadu gwneud sylwadau o dan adran 24D o'r Ddeddf neu, yn ôl y digwydd, o dan adran 26 o'r Ddeddf, rhaid i'r awdurdod—

(a) rhoi gwybodaeth am wasanaethau eirioli i'r person neu'r plentyn hwnnw; a

(b) cynnig help i'r person neu'r plentyn hwnnw i gael eiriolwr.

(2) Pan fydd awdurdod lleol yn derbyn sylwadau gan achwynydd rhaid iddo—

(a) rhoi gwybodaeth i'r achwynydd am wasanaethau eirioli; a

(b) cynnig help i'r achwynydd i gael eiriolwr.

Monitro i ba raddau y cydymffurfir â'r Rheoliadau

5.—(1) Mae'n rhaid i bob awdurdod lleol fonitro'r trefniadau y mae wedi'u gwneud gyda'r bwriad o sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r Rheoliadau hyn drwy gadw cofnod o'r canlynol—

(a) pob achos a ystyriwyd gan yr awdurdod lleol y defnyddiodd yr achwynydd eiriolwr mewn cysylltiad ag ef; a

(b) o ba gorff (os o gwbl) y deuai'r eiriolwr; a

(c) barn yr achwynydd (os o gwbl) am y cymorth a ddarparwyd gan yr eiriolwr.

(2) At ddibenion monitro o'r fath, mae'n rhaid i bob awdurdod lleol, o leiaf unwaith ym mhob cyfnod o ddeuddeng mis, lunio adroddiad ar y modd y gweithredwyd y weithdrefn a nodir yn y Rheoliadau hyn yn ystod y cyfnod hwnnw.

(3) Rhaid llunio'r adroddiad cyntaf y cyfeirir ato ym mharagraff (2) o fewn deuddeng mis i ddyddiad dod i rym y Rheoliadau hyn.

Diwygio'r Rheoliadau Sylwadau

6.—(1) Caiff y Rheoliadau Sylwadau eu diwygio yn unol â darpariaethau canlynol y rheoliad hwn.

(2) Yn rheoliad 2(1) (dehongli) ar ôl y diffiniad o "representations" mewnosoder—

(**2**) O.S. 1991/894; yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 1991/2033 ac O.S. 2001/2189 (Cy. 151).